

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi a gynhaliwyd ar nos
Fercher, Tachwedd 1^{af} 2017 yn Ystafell Cymuned Tycroes**

Cofnod rhif 1 – Aelodau’n Bresennol

Cynghorwyr:

A Blackley
A Evans
B Evans
B Thomas
G Thomas
B D Davies
L Griffiths
T Higgins
M Nicholas
I Davies
C Davies

Y Cadeirydd, y Cynghorydd M Nicholas, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod
--

Cofnod rhif 2 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr C Higgins, S Evans a S Lyle.

Cofnod rhif 3 – Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant ynghylch y materion ar yr agenda.

Cofnod rhif 4 – Cyhoeddiadau’r Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd I Davies yn ôl i gyfarfod y Cyngor ar ôl ei salwch diweddar.

**Cofnod rhif 5 – Cyfweld â dau ymgeisydd Interview of Candidates for
Councillor Llanedi Ward**

Daeth y ddau ymgeisydd a oedd wedi dangos diddordeb i fod yn Gynghorydd i gynrychioli ward Llanedi gerbron y Cyngor. Cafwyd trosolwg gan y ddau berson o’u diddordeb yng ngwaith y Cyngor, ac yng nghymuned Llanedi. **Penderfynwyd** penodi Emyr Davies yn Gynghorydd i gynrychioli ward Llanedi.

**Cofnod rhif 6 – – Llofnodi’r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Hydref 4^{ydd} 2017
Penderfynwyd** derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn

flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm—cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 7 – Seremoni Agor Parc yr Hendy

Nodwyd bod seremoni agor yr ardal chwarae wedi ei ganslo. Roedd y Cyngor o'r farn ei bod hi'n addas bod rhai o blant yr ysgol yn cael eu cynnwys yn y seremoni, ac hefyd ystyriwyd bod angen rhoi mwy o rybudd i'r Cynghorwyr a'r gwesteion o ddyddiad arfaethedig y digwyddiad. **Penderfynwyd** y byddai ward yr Hendy yn ail-drefnu'r dyddiad a, gyda hyn, yn hysbysu'r Cynghorwyr o'r manylion.

Cofnod rhif 7 – Gwaith labro dros dro

Nodwyd bod Hanna Cridland wedi'i phenodi i swydd labrwr dros dro ar ran y Cyngor er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw sylfaenol yn y manau chwarae. Gofynnodd yr Aelodau ym mha fodd roedd yr apwyntiad wedi cael ei wneud, a chadarnhawyd bod y cynghorwyr wedi cynnig enwau dau ymgeisydd addas ond taw dim ond Hanna oedd wedi dangos diddordeb yn gwneud y gwaith. Roedd y Clerc hefyd wedi darparu rhestr i'r Cyngor o'r gwaith sydd angen ei wneud yn yr amrywiol safleoedd. **Penderfynwyd** cadarnhau'r apwyntiad hwn. Dywedodd y Swyddog Datblygu Cymunedol y byddai hi'n cydweithio'n agos gyda Hanna i drefnu'r gwaith sydd angen ei wneud yn y manau chwarae.

Cofnod rhif 8 – Cynnau Goleuadau'r Nadolig

Penderfynwyd y byddai'r goleuadau Nadolig yn cael eu cynnu ar ddydd Gwener, Rhagfyr 1^{af}, gan ddechrau yn yr Hendy am 6.00yh, am 6.15 yh yn y Fforest, am 6.30 yh yn Llanedi ac am 7.00 yh yn Nhycroes.

Gofynnwyd i'r Clerc i hysbysu Tafarn y Deri o'r dyddiad a'r amser. Er mwyn darparu gweithgareddau Nadoligaidd ychwanegol yn nghymuned yr Hendy fel rhan o'r seremoni cynnu'r goleuadau, cytunwyd bod lle i ganiatáu i blant ysgol yr Hendy ddefnyddio'r Ystafell Ddarllen i greu llusernau i'w defnyddio yn y pared, ac i ystyried sefydlu groto i blant, gyda gwin twym a mins-peis yn yr Ystafell Ddarllen.

Cofnod rhif 9 – Cinio Nadolig

Cynhelir Cinio Nadolig y Cyngor yn Nhafarn y Deri, Llanedi ar Ragfyr 14^{eg}.

Cofnod rhif 10 – Adroddiad y Swyddog Datblygu Cymunedol (SDC)

Dyma ddedoliad o adroddiad y SDC, gan gynnwys gweithgareddau a gwblhawyd yn ystod y mis blaenorol:

Ysgol yr Hendy

- Cynhaliwyd cyfarfod gyda Phennaeth yr ysgol, Mrs Rhian Kenny, a derbyniais wahoddiad i fynychu'r seremoni wobrwyo'r plant ar Hydref 6^{ed}. Roedd hi'n fraint i mi gael cyflwyno'r bathodynau swyddogol i Gyngor yr Ysgol am y flwyddyn ysgol gyfredol. Yn dilyn y cyfarfod, dysgais bod angen llawer o uwchraddio yn yr ysgol ac nid oes ganddynt gyfleusterau digonol ar gyfer chwaraeon dan-do ac ymarfer corff i'r plant. Ar hyn o bryd dw i wrthi'n llunio ymgynghoriad cymunedol yn yr Hendy a fydd yn cynnig tystiolaeth o'r dyhead a'r angen am y Ganolfan Gymunedol arfaethedig newydd. Mae'r wybodaeth yma yn hanfodol pan yn ceisio am arian grant.
- Tra'n ymgynghori gyda'r bobl ifanc yn yr ysgol gofynnais iddynt i gynnig sylwadau byr o'r hyn yr hoffent ei wneud neu weld yn eu cymuned / Canolfan Gymunedol, neu unrhyw rinwedd neu ddawn y maent yn credu bod ganddynt. Mae'r plant wedi cofnodi eu sylwadau ar ddail ar gyfer "coeden syniadau" a fydd ar wal yr Ystafell Ddarllen yr Hendy. Roedd nifer fawr o'r plant am weld Canolfan Hamdden, gweithgareddau ar ôl ysgol a chyfleusterau chwaraeon dan-do. Estynnwyd gwahoddiad i'r Cynghorwyr i ddod i weld coeden syniadau y plant, a bydd llun ohono yn cael ei gyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Ces i hefyd wahoddiad i fynychu Gŵyl Ddiolchgarwch flynyddol yr ysgol yng Nghapel Newydd, ac fe'm plesiodd yn fawr gan ganu ac ysbryd y plant. Bydda i'n cwrdd eto â Mrs Kenny ar ôl hanner tymor i drafod syniadau eraill yr ysgol, a sut y gallwn gydweithio.

Ysgol Gynradd Sirol Tycroes

Dw i wedi cyfarfod â Phennaeth yr ysgol, Mr Wood, ac wedi mynychu gwasanaeth yn yr ysgol pan ges i'r cyfle i siarad â'r plant, ac i ofyn iddynt am eu syniadau. Derbyniais wahoddiad i fynychu cyfarfod Cyngor yr Ysgol ar Hydref 17^{eg}, a chael argraff dda iawn o'r bobl ifanc blaengar a rhugl yma. Roedd y plant wedi cynnig y syniadau / ceisiadau canlynol:

- Maen nhw wedi llwyddo i gael cyllid am gwrs rwystrau yn yr ysgol, ond hefyd yn ceisio codi rhagor o arian i brynu mwy o offer chwaraeon. Roedd y plant am gynnig ras hwyl gwisg ffansi i godi arian, ac am wybod a

fyddai'r Cyngorwyr lleol efallai yn helpu i drefnu'r ras. Dw i wedi gofyn i'r plant i roi diweddariad i mi ynghlyn â'r trefniadau.

- Roedd y plant yn pryderi am faw cŵn ac ysbwriel ar y cae pêl-droed. Maen nhw wedi cynnig cynnal sesiwn casglu ysbwriel os bod angen gwneud hynny.
- Roedd y plant yn teimlo'n gryf bod yr offer chwarae yn ardaloedd chwarae Tycroes wedi'i gynllunio ar gyfer plant bach yn unig. Dywedodd y plant eu bod yn awyddus i gyfrannu eu syniadau os byddai unrhyw gynlluniau ar y gweill i uwchraddio'r offer chwarae.
- Roedd y plant yn pryderi nad oedd person lolipop ar gael yn yr ysgol.
- Soniodd y plant am rai o'u prosiectau cyfredol, ac roeddent am rannu'r rhain gyda'r Cyngor Cymuned. Maen nhw'n cyfrannu'n flynyddol at "Operation Christmas Child" drwy lenwi bocsys esgidiau gydag anrhegion i blant llai ffodus. Maen nhw hefyd yn cynnal sioe flynyddol "Mae Gan Tycroes Dalent" ac wedi estyn gwahoddiad i minnau ac i'r Cyngorwyr lleol i wyllo, ac efallai i feirniadu'r gystadleuaeth.

Mae Ysgol Tycroes wedi dechrau rhaglen ardderchog o'r enw "Dydd Gwener Cyflym". Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r elusen "Sustrans" ac yn gweithio tuag at y nodau a bennwyd gan Sustrans. Maen nhw eisoes wedi ennill eu bathodynau efydd ac yn gweithio tuag at ennill eu bathodynau arian. Mae'r rhaglen yn gwobrwo'r plant am ddod i'r ysgol ar feic, ar sgwter neu'n cerdded. Y syniad yw hyrwyddo iechyd da a chyfeillgarwch amgylcheddol, ac i leihau'r tagfeydd y tu allan i'r ysgol pan fydd y plant yn cael eu gadael yn y bore neu eu codi yn y prynhawn. Hyd yn hyn mae'r rhaglen "Dydd Gwener Cyflym" wedi bod yn llwyddiant mawr gyda chynnydd mawr yn y plant sy'n dod i'r ysgol heb ddefnyddio'r car (mae gen i'r ystadegau llawn os oes unrhywun am weld copi). I hyrwyddo'r prosiect ymhellach, mae'r Pennaeth a rhai o'r athrawon wedi datgan bod angen rhesel sgwteri ddiogel y gellir ei chloi, a lloches dan-do y gellir ei gloi ar gyfer beiciau yn yr ysgol. Dw i wedi cyflwyno cais i *Groundwork Cymru/Bags of Help* am grant o £4,000 at y pwrpas hyn. Bydd pleidlesio dros y cyllid hwn yn dechrau ym mis Ionawr 2018, a bydda i'n hysbysu'r Cyngor Cymuned o unrhyw newyddio am y cais hwn.

Ysgol Llanedi

Dw i wedi anfon ebost at yr ysgol, ond heb dderbyn ymateb hyd yn hyn.

Ymgynghoriad Cymunedol yn yr Hendy

Er mwyn paratoi at gyflwyno cais am grant y Loteri Fawr: Pawb a'i Le, ar gyfer y Ganolfan Gymunedol arfaethedig, dw i wedi bod yn ymgynghori gyda grwpiau cymunedol lleol, yr ysgol a'r heddlu ac wedi llunio arolwg arlein. Dw i wedi derbyn mwy na 100 o ymatebion i'r arolwg, ac mae llawer o bobl lleol wedi cysylltu'n uniongyrchol â fi drwy gyfrwng Facebook i gadarnhau eu bod wedi cwblhau'r arolwg.

Cafwyd asesiad manwl o ganlyniadau'r arolwg yn ystod y cyfarfod.

Roedd y preswylwyr wedi ychwanegu llawer o sylwadau ychwanegol am y gymuned, ond mae'r rhain yn rhy niferus i'w rhestru yn yr adroddiad hwn. Mae'r cyfan ar gael os ydy unrhyw Gynghorydd am gael mynediad at yr arolwg arlein. Mae'r arolwg hwn yn parhau, a dw i hefyd yn cynnal ymgynghoriadau eraill.

Dw i ond wedi cyfarfod yn fyr gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ond yn edrych ymlaen at gyfarfod â'r heddlu lleol yn fuan. Dw i hefyd wedi ceisio cysylltu â grwpiau'r henoed, ond mae'n ymddangos nad oes grwpiau Age Concern Cymru ar ôl yng nghymuned yr Hendy. Mae'r Cynghorydd B Thomas wedi dweud wrtha i bod grŵp yn cyfarfod yn y Cartref Henoed lleol ar fore Mawrth, a dw i'n bwriadau ymweld â nhw yr wythnos nesaf.

Dw i wedi gwahodd y gymuned ehangach i gysylltu â mi drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol ac ebost neu drwy daro i mewn i'r Ystafell Ddarllen.

Hyfforddiant a Chyfarfodydd

Cafwyd adroddiad gan y SDC ar yr eitemau ychwanegol canlynol:

- Cinio i drafod gwaith a drefnwyd gan Swyddogion Datblygu Cymunedol Cynghorau Cwmaman a Llannon i drafod hyfforddiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a sut y gallwn gydweithio a chynnal ein gilydd.
- Cyflwyniad gan Rob Venus a Derith Powell yng Nghanolfan Gymunedol Cwmaman i glywed am eu hymgyngoriad cymunedol a phrosiectau a allai gynnig syniadau neu fodelau defnyddiol i Gyngor Cymuned Llanedi.
- Cwrdd â Chyngor Sir Caerfyrddin ynghylch cyfleoedd am dderbyn cyllid grant.
- Cwrdd â Phensaer a Syrfêwr Meintiau y Ganolfan Gymunedol arfaethedig.
- Hyfforddiant datblygu'r wefan. Yn y cwrs hwn trafodais, gyda'r darparwr hyfforddiant, y posibilrwydd o symud gwefan bresennol Cyngor Cymuned

Llanedi i wefan a reolir gan “*Wordpress*”. Byddai gwneud hyn yn cynnig ffordd mwy defnyddiwr-gyfeillgar o ddiweddarau’r wefan ac yn rhoi mwy o reolaeth i mi i gynnal a chadw, ac i ychwanegu at, y wefan. Dw i hefyd yn bwriadu defnyddio’r wefan i greu cylchlythyr cymunedol electronig a fydd ar gael ar y wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Penderfynwyd cymeradwyo apwyntio ymgynghorydd i helpu datblygu’r wefan newydd i’r gymuned, ac a fydd hefyd yn ateb gofynion y Cyngor Cymuned.

Yn ystod y mis nesaf mae’r SDC yn bwriadu cyfarfod â Chymorth Lleol Tycroes, ac yn bwriadu creu cysylltiadau yn Llanedi gan ei bod, hyd yn hyn, wedi bod yn rhannu ei hamser rhwng yr Hendy a Thycroes. Roedd y SDC wedi cadarnhau ei bod yn bwriadau cwrdd â phreswylwyr cymuned yr Hendy ar ddydd Llun, Tachwedd 6^{ed} yn Nhafarn y Deri.

Cofnod rhif 11 – Eglwys Llanedi

Nodwyd bod angen gwneud ymholiadau gydag Eglwys Llanedi ynghylch Gwasanaeth Sul y Cofio gan ein bod wedi clywed bod yr adeilad wedi dioddef peth difrod. **Penderfynwyd** bod y Cynghorydd Mike Nicholas yn cysylltu â’r eglwys, ac yna yn hysbysu’r Cynghorwyr o’r sefyllfa bresennol. Dywedodd y Cynghorydd A Blackley na fydd yn gallu mynychu’r gwasanaeth yn rhinwedd ei swydd fel Dirprwy Faer, ac felly **penderfynwyd** y byddai’r Cynghorydd I Davies yn cymryd rhan yn y gwasanaeth yn absenoldeb y Cynghorydd Blackley.

Cofnod rhif 12 – Gwefan

Riportwyd bod yr hyfforddiant lles a datblygu polisu wedi’i ganslo oherwydd diffyg ymateb oddiwrth yr Aelodau. Cytunodd y SDC i anfon dyddiadau posib ar gyfer yr hyfforddiant at yr Aelodau mewn ymgais i sicrhau bod cymaint â phosib ohonynt yn mynychu, a bod y Cyngor yn gweld budd o’r digwyddiad hwn. Gofynnwyd i’r SDC i bwysleisio i’r Aelodau ei bod yn bwysig iawn bod pob cynghorydd yn gwneud ymdrech i fynychu’r digwyddiad.

Cofnod rhif 13 – Clwb Criced yr Hendy

Cafwyd trosolwg gan y Clerc a’r SDC o’r cynnydd sy’n cael ei wneud gyda’r cais cynllunio i ail-ddatblygu’r clwb criced.

Cafwyd hefyd amlinelliad gan y SDC o’r gwaith ymgynghori gyda’r gymuned y mae hi wedi’i wneud cyn cyflwyno cais am grant at y Loteri Fawr.

Er mwyn datblygu ymhellach y lluniadau ar gyfer y prosiect, nodwyd bod angen penodi ymgynghorwyr ychwanegol i archwilio’r tir, ac i edrych ar ôl materion

mecanyddol a thrydanol. **Penderfynwyd** awdurdodi'r Clerc i geisio dyfynbrisiau, ac i apwyntio'r ymgynghorwyr angenrheidiol yn ôl y gofyn.

Bu trafodaeth fanwl ynghylch y posibilrwydd o gael rhagor o gymorth grant ar gyfer y prosiect, a nodwyd bod angen ail-sefydlu'r Clwb Criced ar frys, gydag aelodaeth ddiffiniedig. Cytunwyd bod aelodau'r Cyngor, mewn partneriaeth â'r SDC, yn ymgynghori yn lleol er mwyn ail-sefydlu'r clwb yn ffurfiol.

Cofnod rhif 14 – Cystadleuaeth Addurno Ffenest

Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd A Blackley i feirniadu'r gystadleuaeth Nadolig hon.

Cofnod rhif 15 – Adolygiad o'r Sector – Cynghorau Cymuned a Thref

Derbyniodd yr Aelodau ohebiaeth ynghylch y cynigion i adolygu y sector Cynghorau Cymuned, ynghyd â gwahoddiad i aelodau i fynychu digwyddiadau ymgynghorol i gyfarfod â gweithgor a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd B Evans ynghylch Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru a oedd wedi trafod nifer o faterion yn ymwneud ag ad-drefnu cynghorau cymuned; cafwyd hefyd adroddiad am y syniadau a grybwyllwyd gan Mark Drayford.

Cofnod rhif 16 – Taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref

Roedd yr aelodau wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch y cynigion drafft i gynnig taliadau i aelodau Cynghorau Cymuned a Thref. **Penderfynwyd** nodi'r ddogfen.

Cofnod rhif 17 – Atal Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd atal y rheolau sefydlog er mwyn parhau i drafod busnes yn y cyfarfod ar ôl 9 yh

Cofnod rhif 18 – Torri Porfa

Codwyd cwestiwn ynghylch y ffordd y mae'r Cyngor yn dyfarnu cytundebau torri porfa i bedwar gwahanol contractwr am amrywiol waith yn ystod y flwyddyn.

Penderfynwyd parhau gyda'r drefn bresennol o benodi contracwyr lleol priodol.

Cofnod rhif 19 – Adroddiadau Ariannol

Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Cyllid a oedd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Cysoniad Banc
- Adroddiad ar yr Incwm a Dderbyniwyd
- Adroddiad ar y Gwariant arfaethedig

- Adroddiad ar dderbyniadau a thaliadau yn ôl pennawd cyllideb **Penderfynwyd** nodi'r adroddiadau hyn.

Cofnod rhif 20 – Cymorth Ariannol

Penderfynodd y Cyngor y dylid cynnig rhoddion i'r mudiadau canlynol yn unol â'i bolisi newydd o gynnig rhoddion, ac yn unol â phwerau'r Cyngor o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Ym marn y Cyngor, bydd y fath roddion o fudd i'r ardal neu ei thrigolion ac yn cynnig mantais iddynt mewn ffordd sy'n gymesur â'r gwariant:

Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Caerfyrddin - £100.00

Roedd y Cyngorwyr T Higgins a G Thomas wedi datgan buddiant, ac heb gymryd unrhyw rhan yn y drafodaeth hon.

Menter Bro Dinefwr - £100.00.

Cofnod rhif 21 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

(a) Datblygiadau Arfaethedig

Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion:

Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio'r Sir.

S/36259 Ystafell haul penty newydd ac estyniad llawr gwaelod is yng nghefn yr adeilad yn 21 Heol Llanedi, Y Fforest, Abertawe, Mr Don Davies.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd

Penderfynwyd nodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(d) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

Cofnod rhif 22 – Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir

Cafwyd adroddiad ynghylch y materion canlynol gan y Cyngorydd G Thomas:

- Mae cais cynllunio wedi'i wneud i sefydlu safle i Sipsiwn yn Lôn y Sipsiwn, Llangennech.
- Mynegwyd consyrn ynghylch y ffaith bod problem barhaol gyda gosod ceblau yn yr Hendy.
- Mae angen tocio'r coed ar y patsyn glas ac yn Llwynbedw, a ragwelir y bydd y Cyngor Sir yn trefnu gwneud y gwaith hyn.
- Mae problemau parcio yn parhau yn Heol y Parc, ac mae'r Cyngor Sir yn ystyried cyflwyno cynllun parcio i breswylwyr yn unig yn y lleoliad hwn. Mae'r Sir hefyd yn ystyried y posibilrwydd o osod llinellau melyn dwbl ger y fynedfa i'r parc.
- Mae'r Cyngorydd G Thomas wedi bod ar ôl John McEvoy ynghylch materion sy'n ymwneud â'r gyffordd gyda'r draffordd yn yr Hendy, yn benodol y broblem gynyddol a achosir os bydd tai ym Mhontarddulais yn derbyn caniatâd cynllunio.

Cofnod rhif 23 – Café Cymunedol

Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth y Cyngorydd A Evans ynghylch y cynnig i sefydlu café cymunedol yn yr Ystafell Ddarllen.

Penderfynwyd cytuno bod Ms Adele O'Neill yn cael defnyddio'r neuadd yn ddi-dâl am gyfnod o 6 mis, ar yr amod ei bod yn sicrhau bod ganddi pob caniatâd cynllunio ac iechyd amgylcheddol, ynghyd â'r yswiriant, sydd eu hangen.

Penderfynwyd awdurdodi'r SDC i brynu oergell/ rhewgell i'r Ystafell Ddarllen.

Cofnod rhif 24 – Adolygiad Staff

Gofynnodd y Clerc am y trefniadau ynghylch cynnal adolygiad o'r staff, gorchwyl a oedd wedi'i ohirio ers mis Gorffennaf. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ceisio trefnu hyn cyn gynted ag y bo modd.

Cofnod rhif 25 – Taliadau Electronig

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch diffyg argaeledd bancio ar-lein i'r Cyngor Cymuned. **Penderfynwyd** gofyn i'r Clerc i wneud ymholiadau pellach gyda'r banc i sefydlu trefniadau bancio electronig.

Cofnod rhif 26 – Daffodiliau

Dyweddod y SDC ei bod yn gobeithio trefnu prosiect plannu daffodiliau yn y gymuned, a gofynnodd i'r Cynghorwyr a fyddant yn gallu darparu rhestr o leoliadau addas lle y mae angen bylbiau ychwanegol, ynghyd ag awgrymiadau o enwau unrhyw Gynghorwyr neu bobl lleol a fydd yn fodlon gwirfoddoli i gynnig help llaw i'r prosiect.

Cofnod rhif 27 - Gohebiaeth Gyffredinol

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth ganlynol i'r cofnodion: -

Awdur	Pwnc
RT Electrics	Dyfnbris am Oleuadau Nadolig
Wicksted Leisure	Taflen Hysbysebu
Lite	Taflen Wybodaeth am Oleuadau y Gwyliau

Daeth busnes y Cyngor i ben am 9.40yn

**Llofnod Dyddiad
Cadeirydd**